**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

# PWYLLGOR PENSIYNAU

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 19EG MAWRTH, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**NODER**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13 Mawrth 2024)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (9)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Iwan Huws | R Medwyn Hughes | Elin Hywel |
| Ioan Thomas | | |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Pughe Roberts | John Brynmor Hughes |

## Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Cyfetholedig (2)

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Robin Wyn Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Goronwy Owen Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22 Ionawr 2024 fel rhai cywir

**5. CYNLLUN HYFFORDDIANT** 12 - 17

I ystyried a derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Hyfforddiant 2024/25.

**6. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2024/25** 18 - 39

- I ystyried yr adroddiad
- I fabwysiadu’r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys atodol am 2024/25, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A).
- I wneud cais i’r Cyngor (er nad yw’n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2024 ymlaen

**7. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** 40 - 56

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo’r Cynllun Busnes

**8. SEMINAR BUDDSODDI LGC**

I dderbyn diweddariad llafar o Seminar Buddsoddi LGC

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau’r wasg a’r cyhoedd allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol( yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny)

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu tanseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er budd y cyhoedd.

## 10. ADRODDIAD ARGYMHELLIAD AR BENODI GWEITHREDWR PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Copi i'r Aelodau yn unig